
Cynllun Iaith Gymraeg

Ymgynghoriad 2015

**Ymgynghoriad a luniwyd gan y
Comisiwn Penodiadau Barnwrol**

Cyhoeddwyd ar 8 Hydref 2015

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 4 Rhagfyr 2015

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol:
<http://jac.judiciary.gov.uk>

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

Cynllun Iaith Gymraeg - Ymgynghoriad

Ymgynghoriad a luniwyd gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Mae hefyd ar gael yn
<https://consult.justice.gov.uk/>

Gair am yr ymgynghoriad hwn

At:

Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i weithredu cynllun, ac o safbwynt y Comisiwn Penodiadau Barnwrol arferai'r ddyletswydd hon gael ei chyflawni dan bolisi ymbarél y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Amcan cyffredinol Cynlluniau Iaith Gymraeg yw y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal, cyn belled ag y bo hynny'n briodol ac yn rhesymol ymarferol, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

Wrth ddrafftio'r ymgynghoriad hwn rydym wedi gweithio'n agos gyda'n partneriaid cyflawni, gan gynnwys y Weinyddiaeth Cyfiawnder; Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi; y Swyddfa Farnwrol ac aelodau'r farnwriaeth.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i anelu at y rheini sydd â diddordeb mewn penodiadau barnwrol a/neu'r rheini sydd â diddordeb yng Nghymru, gan gynnwys y farnwriaeth; ymgeiswyr posibl; cyrff proffesiynol cyfreithiol a grwpiau sydd â diddordeb yng Nghymru. Mae rhestr o'r grwpiau y mae copi wedi ei anfon atynt ar dudalen 18.

Bydd y Comisiwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wrth lunio ei bolisi.

Hyd:

O 8 Hydref 2015 tan 4 Rhagfyr 2015

Ymholiadau ac ymatebion (gan gynnwys ceisiadau i gael y papur mewn fformat arall) at:

Operational Policy
Judicial Appointments Commission
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ
Ffôn: 020 3334 4187
e-bost: communications@jac.gsi.gov.uk

Papur ymateb:

Bydd ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn yn cael ei gyhoeddi erbyn Mawrth 2016 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Cynnwys

Gair am y Comisiwn Penodiadau Barnwrol	3
Cyflwyniad	5
Cefndir	6
Y cynigion	7
Holiadur	14
Eich manylion	15
Manylion cysylltu a sut i ymateb	16
Rhestr o'r ymgynghoreion	18
Egwyddorion ymgynghori	19

Gair am y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

1. Lanswyd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar 3 Ebrill 2006 i ddethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol drwy gystadleuaeth deg ac agored. Rydym yn gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â phenodi i'r Awdurdod Priodol (yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus neu Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd).
2. Roedd ein sefydlu ni yn un o'r prif newidiadau a achoswyd gan y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, a wnaeth hefyd ddiwygio swydd yr Arglwydd Ganghellor a sefydlu'r Arglwydd Brif Ustus fel pennaeth y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Fel corff cyhoeddus anadrannol rydym yn cael ein noddi gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Cytunwyd ar ein nodau a'n hamcanion gyda'r Arglwydd Ganghellor ac maent wedi'u datgan yn ein cynllun busnes.
3. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn dethol ymgeiswyr o ardal mor eang â phosibl ac rydym yn gweithio'n agos gydag ystod o sefydliadau i sicrhau bod ymgeiswyr cymwys yn ymwybodol o'r cyfleoedd a bod ganddynt y wybodaeth sydd ei hangen i ymgeisio.
4. Rydym yn argymhell ymgeiswyr i'w penodi'n farnwyr yr Uchel Lys ac i'r holl swyddi a restrir yn Atodlen 14 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (CRA). Yn ogystal, gall yr Arglwydd Ganghellor ofyn am ein cymorth mewn cysylltiad â phenodiadau eraill.
5. Mae'r rhaglen o ymarferiadau dethol ar gyfer y flwyddyn yn cael ei llunio gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM). Mae'r rhaglen yn seiliedig ar y gofynion barnwrol presennol ac ar ragolygon o'r gofynion gan GLITEM a nifer fechan o swyddi gwag barnwrol ar gyfer tribiwnlysoedd nad yw'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn eu goruchwyllo. Mae'r rhaglen yn darparu rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ein galluogi i ymateb i flaenoriaethau busnes newidiol. Mae'r rhestr lawn o'r swyddi a gwmpesir yn cynnwys rolau sy'n derbyn ffi a rolau cyflogedig yn ogystal â swyddi nad oes angen cefndir cyfreithiol ar eu cyfer.
6. Gofynnir inni hefyd gynnull paneli sy'n argymhell ymgeiswyr i'w penodi i swyddi uwch eraill, gan gynnwys yr Arglwydd Brif Ustus, Meistr y Rholiau, Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Llywydd yr Adran Deulu, Canghellor yr Uchel Lys ac Arglwyddi Ustus Apêl.
7. Caiff Comisiynwyr eu dwyn o'r farnwriaeth, y proffesiwn cyfreithiol, deiliaid swyddi barnwrol sydd heb gymhwyster cyfreithiol a'r cyhoedd. Mae pob un yn cael ei recriwtio a'i benodi drwy gystadleuaeth agored ac eithrio tri aelod barnwrol a ddewisir naill ai gan Gyngor y Barnwyr neu'r Cyngor Tribiwnlysoedd. Mae manylion llawn am gyfansoddiad y Comisiwn a rhestr o'r Comisiynwyr ar gael ar ein gwefan [yma](http://yma.gov.uk).

8. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn cyflawni ei nodau a'i amcanion gan annog ar yr un pryd i staff ac adnoddau eraill gael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon ac effeithiol. Mae Comisiynwyr yn gweithio'n agos gyda staff, Prif Weithredwr ac uwch reolwyr y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.
9. Mae Atodlen 14 i'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol, fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013, yn nodi'r penodiadau barnwrol yr ydym yn dethol ar eu cyfer. Efallai y bydd gofyn i ni naill ai ddewis ymgeisydd i'w benodi ar unwaith dan Adran 87 o'r Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol, neu ddynodi ymgeiswyr ar gyfer ceisiadau am swyddi gwag i'r dyfodol dan Adran 94. Nid ydym yn dethol Ynadon.
10. Rydym yn dethol un ymgeisydd ar gyfer pob swydd wag, cyn belled ag y bo niferoedd digonol o ymgeiswyr ar gael ar gyfer pob swydd wag, ac argymhellwn yr ymgeiswyr hynny i'w penodi i'r Awdurdod Priodol (yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus neu Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd). Fe wnaeth y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd drosglwyddo'r cyfrifoldeb am wneud y rhan fwyaf o benodiadau llys islaw'r Uchel Lys, ac o ran tribiwnlysoedd, Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Uchaf, i'r Arglwydd Brif Ustus neu Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd.
11. Gall yr Awdurdod Priodol dderbyn neu wrthod argymhelliad, neu ofyn i'r Comisiwn ailystyried. Os yw'r Awdurdod Priodol yn gwrthod argymhelliad neu'n gofyn i'r Comisiwn ailystyried, rhaid iddynt roi rhesymau ysgrifenedig inni.
12. Dan y Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd, ein rôl gydag uwch benodiadau yw cynnull panel dethol, sy'n dod yn bwyllgor i'r Comisiwn. Mae paneli uwch benodiadau yn pennu eu prosesau dethol eu hunain. Mae hyn yn cynnwys dethol ar gyfer yr Arglwydd Brif Ustus, Penaethiaid Is-adrannau eraill, Arglwyddi Ustus Apêl, ac Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd. Nid ydym yn gyfrifol am ddethol barnwyr Goruchaf Lys y DU er bod Comisiynydd lleyg yn eistedd ar y panel dethol. Mwy o fanylion am uwch benodiadau ar gael yma.
13. Mae gennym dair dyletswydd statudol allweddol: dethol ymgeiswyr yn ôl eu haeddiant yn unig¹; dim ond dethol pobl o gymeriad da²; a rhoi ystyriaeth i'r angen i annog amrywiaeth ymysg yr ystod unigolion sydd ar gael i'w dethol ar gyfer penodiadau³.

¹ a63(2) y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

² a63(4) y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

³ a64(1) y Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005

Cyflwyniad

14. Arferem weithredu dan Gynllun Iaith Gymraeg ymbarél y Weinyddiaeth Cyfiawnder gan reoli polisi annibynnol i brofi am sgiliau Cymraeg lle bo'n briodol. Rydym yn profi ymgeiswyr am benodiad barnwrol yng Nghymru gyda nifer o gwestiynau ar y 'Wedd Gymreig'; gan ofyn cwestiynau sy'n caniatáu i ymgeiswyr ddangos eu dealltwriaeth o weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a threfniadau datganoli Cymru fel y bo'n briodol.
15. Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn (y Cynllun) wedi cael ei lunio yn dilyn amryw o drafodaethau gyda'r Arglwydd Brif Ustus, aelodau'r farnwriaeth a GLITEM sydd â diddordeb yng Nghymru, ac o'r trafodaethau hynny daeth yn amlwg bod yna awydd am Gynllun Iaith Gymraeg pwrpasol i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol.
16. Un o'n hamcanion ehangach yw darparu gwasanaethau mor effeithlon â phosibl, ac un cyflawniad allweddol fu cyflwyno ein hofferyn recriwtio ar y we y System Recriwtio ar gyfer Penodiadau Barnwrol (JARS) a lansiwyd gennym ym mis Ionawr 2015. Mae gan JARS y potensial i gynnig i ymgeiswyr yng Nghymru y cyfle i gael gafael ar ffurflen gais Gymraeg ar-lein a'i llenwi yn Gymraeg.
17. Mae'r Cynllun yn manylu ar ein hymrwymiaidau presennol a safon ein gwasanaeth ar hyn o bryd mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Gan fod JARS yn y cam datblygu, rydym yn rhagweld, erbyn ein Hadroddiad Monitro Blynnyddol cyntaf i Gomisiynydd y Gymraeg, y byddwn yn gallu rhoi manylion pendant am ddatblygu ein hatebion digidol, a dechrau cael gwared ar y cafeatau 'rhesymol' ac 'ymarferol' wrth i'n proses o gyflenwi atebion Cymraeg digidol ddatblygu a gwreiddio.
18. Sefydliad wedi'i leoli yn Llundain ydym ni ac fel arfer nid ydym yn darparu gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae ein gweithgarwch yng Nghymru fel arfer yn cynnwys cyswllt gyda'r farnwriaeth; aelodau panel; ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol a phartneriaid cyflawni eraill yng Nghymru, megis GLITEM neu Dribiwnlysoedd annibynnol. Felly, nid ydym yn ymgynghori ar ddarpariaethau o safbwynt ymateb i alwadau ffôn, llythyrau nac e-bost yn Gymraeg, nac ar ddefnyddio arwyddion Cymraeg.
19. Dylid dehongli bod cwmpas ein hymrwymiaidau yn weithredol i'r gwasanaethau a'r gweithgareddau recriwtio hynny sy'n wynebu ymgeiswyr yng Nghymru yr ydym yn gallu eu rheoli neu ddylanwadu arnynt.
20. Mae'r cynllun gwirfoddol, arbenigol hwn wedi cael ei lunio i nodi'n well sut ydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg wrth ddefnyddio ein dull annibynnol o asesu addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer penodiad barnwrol yng Nghymru. Mae hefyd yn esbonio sut ydym yn galluogi ymgeiswyr i gyfathrebu â ni drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, yn unol â'u dewis personol, rhywbeth y byddwn yn ei hwyluso gyda

phob cyfle cyn belled ag y bo'n briodol dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.

Cefndir

Mae'r papur hwn yn datgan ar gyfer yr ymgynghoriad Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. Bwriedir yr ymgynghoriad ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn penodiadau barnwrol, gan gynnwys y farnwriaeth, ymgeiswyr posibl, cyrff proffesiynol cyfreithiol a grwpiau â buddiannau Cymreig.

Mae papur ymgynghori Cymraeg ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>

Ni wnaed Asesiad o Effaith gan nad yw'n debygol o gael effaith niweidiol ar unrhyw grwpiau. Wynebu i mewn y mae'r cynigion hyn ac ni arweiniant at unrhyw arbedion na chostau ychwanegol i bartïon eraill.

Y cynigion

1. Safon y gwasanaeth

Mae'r darpariaethau canlynol, wedi'u rhifo 6-9 yn y Cynllun yn cynnwys yr adran 'Safon y gwasanaeth'.

6. Ein man cychwyn yw'r egwyddor bod gan y Gymraeg statws swyddogol dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a chyn hynny dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac na ddylai gael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. Wrth argymhell ymgeiswyr addas ar gyfer penodiad barnwrol yng Nghymru, byddwn yn cyflwyno gwasanaethau o'r un safon uchel ni waeth a ydynt yn cael eu darparu yn Gymraeg neu'n Saesneg.
7. Fel sefydliad a leolir yn Llundain, mae ein gweithgarwch yng Nghymru fel arfer yn cynnwys cyswllt gyda'r farnwriaeth; aelodau panel; ymgeiswyr ar gyfer penodiadau barnwrol a phartneriaid darparu eraill yng Nghymru, megis Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) neu Dribiwnlysoedd annibynnol.
8. Mae ymarferiadau dethol ar gyfer penodiadau barnwrol yn cael eu cychwyn gan GLITEM, y Swyddfa Farnwrol a'r llys neu'r tribiwnlys dan sylw. Wrth gynnal ymarferiadau dethol ar gyfer swyddi barnwrol yng Nghymru, cyfrifoldeb y llys neu'r tribiwnlys dan sylw ydy nodi'r sgiliau Cymraeg ar gyfer y swyddi gwag, lefel y sgiliau hynny ac unrhyw ofynion pellach yn ymwneud â gwybodaeth am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru a/neu drefniadau datganoli. Rydym hefyd yn cynnal ymarferion dethol i rai Tribiwnlysoedd datganoledig ar ran Llywodraeth Cymru. Mewn achosion o'r fath, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ydy penderfynu ar y gofynion ieithyddol.
9. Ar ôl penderfynu ar y meini prawf, ein swyddogaeth ydy cynnal ymarferiadau dethol a phenderfynu ar ddulliau asesu priodol.

Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â safon arfaethedig y gwasanaeth, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

2. Hysbysebu

Mae'r darpariaethau canlynol, wedi'u rhifo 10-15 yn y Cynllun yn cynnwys yr adran 'Hysbysebu'.

10. Rydym yn hysbysebu ymarferiadau dethol ar ein gwefan, ac yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt drwy ein cylchlythyr e-bost 'Judging your future' a drwy Twitter. Fel arfer rydym yn hysbysebu ar-lein yn unig, ac mae'r adran hon yn nodi ein dull o hysbysebu swyddi yng Nghymru drwy'r cyfwrng hwn, ac fel eithriad, ein dull o hysbysebu mewn cyfryngau y tu allan i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol.
11. Bydd hysbysebion, disgrifiadau a manylebau swyddi gwag yn adlewyrchu anghenion ieithyddol y swydd, a lle bo angen, yn nodi lefel y sgiliau sydd eu hangen.
12. Byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru ac sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ar gyfryngau ar-lein y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn ddwyieithog, ac mae hynny'n golygu defnyddio testun Cymraeg a Saesneg cyfatebol yn yr un ddogfen.
13. Byddwn yn hysbysebu swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru nad ydynt yn gofyn am sgiliau Cymraeg ar gyfryngau ar-lein y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn ddwyieithog pryd bynnag y bo hynny'n rhesymol ymarferol bosibl.
14. Os, fel eithriad, fod swyddi sy'n gofyn am weithio yng Nghymru ac sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg yn cael eu hysbysebu mewn llefydd heblaw ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, byddwn yn hysbysebu yn ddwyieithog. Os digwydd hynny, efallai y bydd angen cael hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn dibynnu ar ofynion yr ymarferiad a lefel y sgiliau sy'n ofynnol, er enghraifft os oes llawer iawn o fanylder mewn hysbysiad gan wneud hysbysiad dwyieithog yn rhy hir. Ar gyfer hysbysiadau mewn cyfryngau yng Nghymru efallai y byddwn yn archwilio ardal ddosbarthu debygol y manau penodol, eu perthnasedd i'r awdurdodaeth a'u heffeithiolrwydd hysbys o'u cymharu â modelau hysbysebu eraill megis y rhyngrwyd neu gyfryngau cymdeithasol.
15. Os caiff hysbysebu allanol ei ddefnyddio, fel eithriad, ar gyfer swyddi yng Nghymru nad ydynt yn gofyn am sgiliau Cymraeg, byddwn yn penderfynu, fesul achos, a yw'n rhesymol ymarferol i hysbysebu'n ddwyieithog.

Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau hysbysebu, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

3. Gohebiaethau a deunyddiau eraill

Mae'r darpariaethau canlynol, wedi'u rhifo 16-27 yn y Cynllun yn datgan sut byddwn yn trin y Gymraeg yn ein cyhoeddiadau cyffredinol ac yn neunydd ein hymarferion dethol.

Cyhoeddiadau cyffredinol

16. Ni fyddwn yn trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg pryd bynnag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol. Mae'r adran hon yn datgan sut byddwn yn gweithredu'r egwyddor pan fyddwn yn cyhoeddi deunydd i'w ddosbarthu yng Nghymru.
17. Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau perthnasol, megis ymgynghoriadau, sy'n effeithio ar Gymru yn benodol, byddwn yn ymdrechu i gynhyrchu cyhoeddiadau'n ddwyieithog, ac mae hynny'n golygu defnyddio testun Cymraeg a Saesneg cyfatebol yn yr un ddogfen.
18. Os bydd hyn yn gwneud y dogfennau yn rhy hir neu'n cael effaith anffafriol ar ymarferoldeb, bydd deunyddiau ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y fersiwn yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd pan fydd ar gael ar-lein. Byddant hefyd ar gael gyda'i gilydd, gyda'r gofynion cyfieithu wedi'u hystyried a'u cyflawni cyn cyhoeddi.
19. Os nad yw'r cyhoeddiadau cyffredinol yn ymwneud yn benodol â Chymru, byddwn yn cyhoeddi yn Saesneg ac yn darparu copïau Cymraeg os gofynnir.

Ymarferiadau dethol sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg

20. Pan fydd swydd wag yn gofyn am sgiliau Cymraeg byddwn yn cynhyrchu deunyddiau'r ymarferiad megis pecynnau gwybodaeth yn ddwyieithog.
21. Os yw dogfen ddwyieithog yn mynd yn rhy hir neu'n cael effaith anffafriol ar ymarferoldeb, bydd deunyddiau ar gael mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd y fersiwn yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd pan fydd ar gael, a byddant hefyd ar gael gyda'i gilydd.
22. Os nad oes modd inni addasu meysydd electronig sefydlog ar ein ffurflen gais ar-lein, gall ymgeiswyr ateb y cwestiynau yn Gymraeg, a byddwn hefyd yn derbyn copi Saesneg pellach drwy e-bost os yw ymgeiswyr yn dymuno cyflwyno cais yn y ddwy iaith. Os bydd rhywun yn gofyn, byddwn yn darparu fersiwn Gymraeg o'r ffurflen gais ar ffurf copi caled.
23. Bydd cyfieithwry cymeradwy yn cael eu defnyddio pan fydd angen cyfieithu'r dogfennau hyn.

Ymarferiadau dethol nad ydynt yn gofyn am sgiliau Cymraeg

24. Os ceir swydd wag nad yw'n gofyn am sgiliau Cymraeg, efallai y byddwn yn darparu deunyddiau'r ymarferiad wedi'u cyfieithu neu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân pe byddai hwn yn ddull rhesymol o gynyddu nifer ac ansawdd y ceisiadau o Gymru. Byddwn yn gwneud hynny os gofynnir beth bynnag.
25. Wrth lenwi ffurflenni cais electronig ar-lein, byddwn yn derbyn atebion Cymraeg, a byddwn hefyd yn derbyn copi Saesneg pellach drwy e-bost os bydd ymgeisydd yn dymuno cyflwyno cais yn y ddwy iaith, ni waeth a yw'r swydd yn gofyn am sgiliau Cymraeg.
26. Os gofynnir, byddwn yn darparu fersiwn Gymraeg o'r ffurflen gais ar ffurf copi caled.
27. Os ceir ceisiadau yn Gymraeg am swydd nad ydyw'n gofyn am unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd gweddill yr ymarferiad dethol yn cael ei gynnal yn Saesneg.

Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar ohebiaethau a deunyddiau eraill gan gynnwys cyhoeddiadau cyffredinol a deunyddiau ymarferiadau dethol, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

4. Asesu gallu mewn Cymraeg

Mae'r darpariaethau canlynol yn cynnwys adran 'Asesu gallu mewn Cymraeg' y cynllun arfaethedig ac fe'i cefnogir gan arweiniad mewnol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar sut i asesu cymhwysedd iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg.

Er enghraifft, rydym wedi penodi dau aelod panel sy'n siarad Cymraeg ac os yn bosibl byddwn yn ceisio cael panel cwbl Gymraeg ar gyfer swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg; mae trefniadau penodol i'w cael ar gyfer paneli yn nhrefn eu dewis os nad oes panel cwbl Gymraeg ar gael.

28. Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu nodi gan GLITEM, y Swyddfa Farnwrol a'r llys neu'r tribiwnlys dan sylw; felly, nid ydym yn gweithredu dull asesu pendant. Rydym yn ymateb yn hyblyg i geisiadau i recriwtio ymgeiswyr sydd â sgiliau Cymraeg, gan greu asesiadau pwrpasol a fydd yn profi a mesur y sgiliau iaith i'r lefel ofynnol.
29. Pan fyddwn yn recriwtio ar gyfer swydd wag sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg, byddwn yn datgan yn glir unrhyw ofynion a nodwyd gan GLITEM, megis, er enghraifft, y gallu i ddeall Cymraeg llafar, y gallu i siarad Cymraeg neu'r gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.
30. At hynny byddwn yn esbonio i ba lefel y mae sgiliau Cymraeg yn ofynnol; er enghraifft, a yw swydd sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg yn gofyn am sgiliau sgwrsio sylfaenol, y gallu i gynnal gwrandawriad yn Gymraeg, ynteu unrhyw lefel yn y canol.
31. Os yw sgiliau Cymraeg yn ofynnol ar gyfer swydd wag, asesir a yw'r ymgeiswyr yn bodloni trothwy penodol o ran gallu ieithyddol. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal ar wahân ac yn ychwanegol at yr asesiad craidd o'r holl ymgeiswyr yn erbyn ein fframweithiau cymhwysedd cyhoeddedig. Rydym yn datblygu ystod o ddulliau priodol ar gyfer asesu gofynion iaith Gymraeg, i'w defnyddio yn ôl amgylchiadau a gofynion yr ymarferiad penodol.
32. Pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol bosibl, byddwn yn ceisio cynnig i ymgeiswyr am swyddi yng Nghymru y cyfle i gael eu cyfweld yng Nghymru.

Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar asesu gallu mewn Cymraeg, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

5. Gweithredu a monitro'r cynllun

Mae'r darpariaethau canlynol, wedi'u rhifo 33 – 38 yn y Cynllun yn cynnwys yr adran 'Gweithredu a monitro'.

33. Bydd copi o'r cynllun hwn yn cael ei roi ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.
34. Bydd ein polisïau, ein cynlluniau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn, a byddwn yn ystyried yn llawn unrhyw effaith wrth lunio polisïau neu weithdrefnau newydd. Mae hyn yn cynnwys, yn benodol, datblygu a chyflwyno unrhyw systemau TG newydd.
35. Wrth lunio polisïau, byddwn yn defnyddio ein proses bresennol o asesu effaith i ystyried yn llawn unrhyw effaith bosibl ar y cynllun hwn. Er bod hynny'n annhebygol, os oes posibilrwydd i bolisi newydd effeithio ar gyflwyno'r cynllun, ein sefyllfa ddiofyn fyddai ystyried dewisiadau eraill ac nid tanseilio'r cynllun.
36. Byddwn yn darparu i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg adroddiad monitro blynyddol a fydd yn esbonio sut cafodd y cynllun hwn ei ddefnyddio, a bydd yn cynnwys:
 - nifer yr ymarferiadau dethol a gynhaliwyd yng Nghymru lle'r oedd gofyn am sgiliau Cymraeg fel y pennwyd gan GLITEM a'r llys neu'r tribiwnlys dan sylw;
 - nifer yr hysbysiadau a wnaed yn ddwyieithog neu mewn fersiynau dwyieithog;
 - nifer y penodiadau barnwrol a wnaed lle'r oedd sgiliau Cymraeg yn ofynnol ar gyfer swydd wag;
 - unrhyw gwynion a wnaed a'r camau gweithredu dilynol a gymerwyd yn erbyn gweithrediad y Comisiwn Penodiadau Barnwrol o'r cynllun hwn;
 - os oedd unrhyw safonau heb eu bodloni, rhoddir esboniad llawn a manylion unrhyw gamau unioni a gymerwyd;
37. Byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder dan drefniadau adrodd arferol y noddwr, a hefyd i Gydlynnydd Iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Cyfiawnder, CLITEM Cymru a Barnwr Cyswllt yr Iaith Gymraeg.
38. Byddwn yn cysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw os ydym eisiau gwneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun, ac ni fyddwn yn gwneud hynny heb gymeradwyaeth.

Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar weithredu a monitro'r cynllun, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

6. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

Mae'r darpariaethau canlynol yn cynnwys adran 'Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella' y Cynllun.

39. Rydym yn gobeithio na fyddwn yn rhoi achos i gwyno, a byddwn yn monitro ymarferiadau recriwtio sydd ag elfen iaith Gymraeg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r Cynllun hwn.

40. Os oes gennych gŵyn am y ffordd rydym wedi bodloni ein hymrwymadau i'r Cynllun hwn, neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein Cynllun yr hoffech inni eu hystyried, gofynnwn i chi gysylltu â ni:

Judicial Appointments Commission
1st Floor, Zone A
102 Petty France
London
SW1H 9AJ
complaints@jac.qsi.gov.uk

41. Os nad ydych yn fodlon gydag ein hateb gallech yn y pen draw gyfeirio eich cwyn at Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

42. Os bydd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio atom gŵyn y mae wedi ei derbyn yn uniongyrchol am y Cynllun, byddwn yn ymchwilio i'r gŵyn ac yn ymateb i chi, ac yn anfon copi o'r ymateb at Gomisiynydd y Gymraeg.

43. Os yw Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn penderfynu ymchwilio i'r gŵyn, y drefn fydd y cyfryw drefn ag y cred y Comisiynydd sy'n briodol i amgylchiadau'r achos. Gall hyn arwain at fod y Comisiynydd yn caniatáu inni barhau i gynnal yr ymchwiliad a chyflwyno adroddiad ar ein canfyddiadau; neu os yw'r Comisiynydd yn dewis cynnal yr ymchwiliad, byddwn yn cydweithredu'n llwyr.

44. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, yn unol ag Adran 19(1) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg, bydd y Comisiynydd yn anfon copi o'r canlyniadau atom.

45. Nid oes yr un o'r darpariaethau uchod yn effeithio ar eich gallu i gyfeirio cwyn at yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol.

Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 7. A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y Cynllun neu ar ei gyflwyno?

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd i'w gweld yn y papur ymgynghori hwn.

Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno â safon arfaethedig y gwasanaeth, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau hysbysebu, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 3. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar ohebiaethau a deunyddiau eraill gan gynnwys cyhoeddiadau cyffredinol a deunyddiau ymarferiadau dethol, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 4. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar asesu gallu mewn Cymraeg, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 5. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar weithredu a monitro'r cynllun, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 6. A ydych yn cytuno â'n darpariaethau ar gwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella, neu a oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â hynny?

Cwestiwn 7. A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol am y Cynllun neu ar ei gyflwyno?

Cwestiwn 8. A oes gennych unrhyw safbwyntiau ynglŷn â'r posibilrwydd i'r cynigion gael effaith ar gydraddoldebau (hil, rhyw, anabledd, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, oedran, priodas, partneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth)? Os felly, rhowch resymau pryd bynnag y bo hynny'n bosibl i gefnogi eich barn.

Gallwch ateb y cwestiynau ar-lein, eu hateb drwy anfon e-bost atom neu gallwch ysgrifennu copi papur a'i anfon atom.

Diolch ichi am gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgynghori hwn.

Eich manylion

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu ym mha rinwedd ydych yn ymateb i'r ymarferiad ymgynghori hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd ayb.)	
Dyddiad	
Enw cwmni/sefydliad (os yn berthnasol):	
Cyfeiriad e-bost (ddim yn orfodol)	
Os hoffech inni anfon e-bost i ddweud ein bod wedi cael eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	☐ (ticiwch y blwch)
Cyfeiriad e-bost ar gyfer anfon cydnabyddiaeth, os yn wahanol i'r uchod	

Os ydych yn cynrychioli grŵp, dywedwch wrthym enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

Manylion cysylltu/Sut i ymateb

Gallwch lenwi'r Holiadur ar-lein, neu gallwch anfon eich ymateb erbyn 4 Rhagfyr 2015 i:

Operational Policy

Judicial Appointments Commission

1st Floor, Zone A

102 Petty France

London SW1H 9AJ

Ffôn: 020 3334 4187

e-bost: communications@jac.gsi.gov.uk

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn y cyfeiriad uchod.

Copïau ychwanegol

Mae copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn i'w cael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol drwy ddefnyddio'r manylion uchod.

Cyhoeddi'r ymateb

Bydd papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi cyn mis Mawrth 2016. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Grwpiau cynrychioliadol

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan maent yn ymateb.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl i wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (sef yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y ceir Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro wrthym pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn rhwymedigol ar y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

Bydd y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data ac yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partïon.

Rhestr o'r ymgynghoreion

Mae copi o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei anfon at y canlynol:

Cymdeithas y Barnwyr Rhanbarth
Cymdeithas Athrawon y Gyfraith
Cymdeithas y Barnwyr Benywaidd
Cyngor y Bar
Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar
CILEX
Cyngor Barnwyr Cylchdaith Ei Mawrhydi
Gwasanaeth Cyfreithiol y Llywodraeth
Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
Coleg Barnwrol
Swyddfa Farnwrol
Haenau mewn Llywodraeth Leol
Cymdeithas y Cyfreithwyr
Arglwydd Brif Ustus
Y Weinyddiaeth Cyfiawnder
Cymdeithas Ysgolheigion Cyfreithiol
Cymdeithas Astudiaethau Economaidd-Gyfreithiol
Cymdeithas y Cyfreithwyr - Eiriolwyr yn yr Uwch Llysoedd
Cymdeithas barnwyr rhan-amser y DU

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gyflawn nac yn gyfyngedig a chroesewir ymatebion oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb yn nhestun y papur hwn neu sydd â barn am y testun hwnnw.

Egwyddorion ymgynghori

Mae'r egwyddorion y dylai adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth lunio polisiau a deddfwriaeth wedi'u datgan yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>



© Hawlfraint y Goron 2015

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennu at yr Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth dan hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint honno.

Mae'r adroddiad hwn i'w gael mewn fformatau gwahanol os gofynnwch ar communications@jac.gsi.gov.uk